

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor  
**sir ddinbych**  
**denbighshire**  
County Council



At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu  
Cymunedau

Dyddiad: 7 Mawrth 2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 14 MAWRTH 2024 am 10.00 am YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRwy GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYSGOL Y U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 7 - 22)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau Arbennig a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2024 (copi ynghlwm) a'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a a gynhaliwyd ar 01 Chwefror 2024 (copi ynghlwm).

**5 CYNNIG ARBEDION CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS** (Tudalennau 23 - 48)

Ystyried adroddiad oddi wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (copi'n amgaeëdig) sy'n gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar yr adroddiad cyn unrhyw benderfyniad gan y Cabinet yn y dyfodol.

**6 RHAGLEN ADFYWIO A LLYWODRAETHU Y RHYL** (Tudalennau 49 - 72)

Ystyried adroddiad oddi wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (copi'n amgaeëdig) sy'n gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar y modd y mae'r Cyngor yn darparu ac yn llywodraethu Rhaglen Adfywio'r Rhyl.

**7 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 73 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Williams  
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Karen Anne Edwards (Is-Gadeirydd)

Michelle Blakeley-Walker  
James Elson  
Jon Harland  
Carol Holliday  
Alan James

Brian Jones  
Delyth Jones  
Merfyn Parry  
Cheryl Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

## Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant \***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambrau y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd iau, 11 Ionawr 2024 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Karen Edwards (Is-Gadeirydd), James Elson, Jon Harland, Carol Holliday, Alan James, Brian Jones, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

### YN BRESENNOL YN EU RHINWEDD FEL LLOFNODWYR I ALW PENDERFYNIAID I MEWN

Y Cynghorwyr Justine Evans, Hugh Irving, a Terry Mendies.

### YN BRESENNOL AR WAHODDIAD Y PWYLLGOR

Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a'r Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth.

### YN BRESENNOL FEL ARSYLWYR:

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, Y Cynghorydd Ann Davies, Y Cynghorydd Pauline Edwards, Y Cynghorydd Bobby Feeley, Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Y Cynghorydd Gareth Sandilands, Y Cynghorydd Peter Scott, Y Cynghorydd Andrea Tomlin, Y Cynghorydd David Gwyn Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (Swyddog Monitro) (GW); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi (TW), Pennaeth Cyllid ac Archwilio (LT), Pennaeth Tai a Chymunedau (LG), Cydlynnydd Craffu (RhE), Gweinyddwr Pwyllgor: Cofnodwr (RhT-J), ac Uwch Weinyddwr Pwyllgor: Darlledwr Zoom (KJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Dyweddodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod Plaid Cymru wedi newid ei chynrychiolydd ar y Pwyllgor, gyda'r Cynghorydd Arwel Roberts yn cymryd lle'r Cynghorydd Delyth Jones fel cynrychiolydd y Grŵp.

## 2 DATGAN CYSYLTIAD

Gan ymateb i ymholiadau yn ymwneud â datgan cysylltiadau personol neu gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ym musnes y cyfarfod dywedodd y Swyddog Monitro:

- ni thybiwyd bod gan gynghorwyr a oedd yn defnyddio cyfleusterau llyfrgell o bryd i'w gilydd gysylltiad a oedd yn effeithio arnynt neu'n eu ffafrio yn fwy nag unrhyw aelod o'r cyhoedd; ac

- nid oedd bod yn llofnodwr i alw penderfyniad i mewn yn cael ei ystyried yn gysylltiad personol na chysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan fod yr hawl i alw penderfyniad y Cabinet i mewn yn rhan o'r ôl aelod anweithredol.

### **3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

### **4 ADOLYGIAD O BENDERFYNIAID Y CABINET YN YMWNEDD Â'R CYNNIG AM ARBEDION I'R GWASANAETH LLYFRGELLOEDD/SIOPAU UN ALWAD**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngorwyr Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth i'r cyfarfod ac eglurodd eu bod yn mynchu ar ei gais i ateb cwestiynau'r aelodau yn ymwnedud â'r penderfyniad. .

Galwyd ar yr aelodau a oedd wedi llofnodi'r cais i alw'r penderfyniad i mewn i roi datganiadau ar y rhesymau dros hynny; yr aelodau hyn oedd y Cyngorwyr Hugh Irving, Terry Mendies, James Elson, Justine Evans, a Brian Jones.

Diolchodd y Cyngorydd Hugh Irving i'r Cadeirydd am ganiatáu iddo siarad. Ailadroddodd fod y rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn fel a ganlyn -

1. Roedd y penderfyniad i leihau oriau agor llyfrgelloedd 40% yn amhriodol gan y byddai'r gostyngiadau yn atal gwasanaeth sy'n perfformio'n dda rhag cynnal ei safonau ac yn effeithio ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor. Nid oedd yr effaith hon wedi ei hegluro eto.
2. Mae siopau un alwad sydd wedi'u lleoli mewn llyfrgelloedd yn darparu cefnogaeth sylweddol i'r gymuned yn enwedig i drigolion llai abl na fyddant yn cael cymaint o gefnogaeth mwyach. Bydd mynediad y cyhoedd i dechnoleg TG yn cael ei leihau a bydd cyfleoedd i drigolion fynd i mewn i amgylchedd cynnes am resymau cymdeithasol yn cael eu lleihau.
3. Nid yw Costau Diswyddo Posibl ac effaith colli staff hyfforddedig, profiadol wedi'u cyfrifo'n llawn eto na'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer arbedion corfforaethol. Nid yw manylion yr arbedion a ragwelir wedi'u darparu i aelodau eto.
4. Nid yw Cyngor Tref Rhuddlan na Chyngor Dinas Llanelwy wedi nodi eto a fyddant yn parhau â'u cefnogaeth ariannol i'w llyfrgelloedd lleol yng ngoleuni'r gostyngiad yn y gwasanaeth a gynigir. Mae angen i'r ffigurau hyn fod yn hysbys a'u hystyried cyn gwneud penderfyniadau terfynol.
5. Nid yw sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau trwy lyfrgelloedd wedi nodi eto a fyddant yn parhau i wneud hynny gyda'r effaith ganlyniadol ar les cymunedol. Nid yw colledion ariannol gan sefydliadau masnachol megis banciau o golli mynediad i gyfleusterau llyfrgell wedi'u cyfrifo eto ac nid yw eu colled i'r gymuned wedi'i ystyried.

Yn ogystal â'r rhesymau a nodwyd eisoes, holodd y Cyngorydd Irving a oedd y swyddogion a'r aelodau arweiniol wedi ymweld â'r llyfrgelloedd cyn gwneud y penderfyniad i ddeall yr effaith y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar drigolion a'r cymunedau cyfagos, yn ogystal ag ar sefydliadau allanol a oedd yn defnyddio'r

Ilyfrgelloedd. Byddai pob un yn dioddef o'r oriau agor byrrach. Teimlai'r Cynghorydd Irving nad oedd penderfyniad y Cabinet wedi ystyried y darlun cyfan nac wedi sylweddoli'n llawn yr effaith eang y byddai'r toriadau yn ei chael ar staff profiadol, preswylwyr, ynghyd â sefydliadau allanol gwirfoddol a masnachol a oedd yn dymuno defnyddio Ilyfrgelloedd at ddibenion ymgysylltu â'r gymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Terry Mendies wrth y Pwyllgor ei fod yn meddwl bod yr arbedion arfaethedig yn gymeradwy, ond ni fyddent yn ddichonadwy. Holodd y Cynghorydd Mendies yngylch y diswyddiadau arfaethedig gan y dywedwyd yn ystod cyfarfod Cabinet mis Rhagfyr mai diswyddiadau fyddai'r opsiwn olaf ac y ceisir adleoli mewn gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor ar gyfer staff sydd dan fygythiad o gael eu diswyddo. Gofynnodd a fyddai unrhyw arbedion yn cael eu cyflawni pe bai staff yn cael eu hadleoli. Wrth gloi ei ddatganiad, ychwanegodd y Cynghorydd Mendies mai'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus oedd yr ymateb mwyaf i'r Cyngor ei brofi ac eto nid oedd ymatebion y cyhoedd yn cael eu hadlewyrchu yn y penderfyniad a wnaed. Wrth gloi, dywedodd fod yna brosiectau mwy y gallai'r Cyngor eu hatal er mwyn cyflawni arbedion mwy sylweddol.

Adleisiodd y Cynghorydd James Elson y datganiadau blaenorol. Gan ychwanegu ei fod yn meddwl bod y llyfrgelloedd yn darged meddal, gan ofni, pe caniateid i'r toriadau fynd yn eu blaenau, na fyddai'r gwasanaeth yn dychwelyd i'r gwasanaeth rhagorol y mae ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cynghorydd Justine Evans ei bod yn cytuno â'r hyn a ddywedwyd. Dywedodd hefyd ei bod yn ofni y byddai'r toriadau arfaethedig yn effeithio'n fwy arwyddocaol ar y rhai mwyaf bregus a difreintiedig yn y gymuned yn ogystal ag ar fyfyrwyr sy'n defnyddio'r llyfrgelloedd i astudio. Roedd llyfrgelloedd hefyd yn darparu mannau cynnes i blant a phobl ifanc astudio ac weithiau'n cael eu defnyddio fel mannau diogel ganddynt i ffwrdd o amgylchedd cartref anhrefnus.

Cytunodd y Cynghorydd Brian Jones â'r siaradwyr blaenorol. Cydnabu'r cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac roedd yn deall y cynigion yn llawn, ond teimlai nad oedd y ffordd yr oedd y penderfyniad wedi'i wneud wedi'i ystyried yn drylwyr a bod angen amser ychwanegol arno cyn ei weithredu er mwyn sicrhau bod effaith y penderfyniad wedi'i fesur yn llawn.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol dros y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth i bawb am eu sylwadau a'r cyfle i siarad. Dywedodd ei fod yn rhannu pryderon yr aelodau yngylch y cynigion, nid oedd y penderfyniad yn un yr oedd unrhyw aelod am ei wneud, ond bod y Cyngor yn wynebu gwneud penderfyniadau annymunol mewn perthynas â darparu gwasanaethau oherwydd yr hinsawdd ariannol ddigynsail yr oedd yn rhaid iddo weithredu ynddi ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Roedd y Cabinet yn ymwybodol iawn o'r effaith y byddai'r gostyngiad yn ei gael ar gymunedau, fodd bynnag roedd yn rhaid gwneud y penderfyniad. Pwysleisiodd y Cynghorydd Wynne na fyddai unrhyw lyfrgelloedd yn cau, yr opsiwn a gymerwyd gan y Cabinet oedd yr opsiwn gorau ar gyfer llyfrgelloedd y sir, ni fyddai unrhyw lyfrgelloedd yn cau, byddai pob un yn parhau ar agor er hynny gyda llai o oriau agor. Teimlwyd bod yr opsiwn hwn yn rhoi cyfle i ymestyn oriau agor unwaith y byddai'r hinsawdd ariannol yn gwella.

Gan ateb y pwyntiau a godwyd, dywedodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol a'r Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth:

- Nid oedd Sir Ddinbych ar ei phen ei hun yn wynebu gorfod torri gwasanaethau, roedd awdurdodau lleol ar draws y DU i gyd yn ceisio delio ag effeithiau costau uwch, chwyddiant uchel a setliadau is na chwyddiant gan lywodraethau canolog.
- nad oedd yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei anwybyddu. O ganlyniad i'r ymgynghoriad roedd y cynnig i leihau oriau agor llyfrgelloedd 50% wedi'i ddiwygio i ostyngiad o 40%, byddai hyn yn golygu y byddai llyfrgelloedd ar agor am tua 80 awr yn fwy nag o dan y cynnig gwreiddiol.
- roedd yr effaith negyddol yn cael ei hadnabod gan fod yr asesiad o'r effaith ar les yn dangos bod yr asesiad yn un negyddol; fodd bynnag, roedd yn ofynnol i'r Cyngor osod cylideb gytbwys.
- yngylch y diswyddiadau posibl, roedd y ffigurau yn yr adroddiad wedi'u seilio o fewn ystod yn dechrau ar sero pe bai'r holl staff yr effeithir arnynt yn cael eu hadleoli'n llwyddiannus, gyda'r ffigwr uchaf yn nodi uchafswm y gost pe bai'r holl staff yr effeithir arnynt yn cael eu diswyddo.
- Y byddai'n hapus i drafod prosiectau eraill a allai gael eu gohирio gyda'r Cyngorydd Mendies y tu allan i'r cyfarfod.
- nad oedd y penderfyniad yn 'stryd un ffordd'. Sicrhawyd yr aelodau y byddai gweithgor yn cael ei ffurfio i edrych ar opsiynau darparu ar gyfer y dyfodol gyda'r bwriad o adfer oriau agor y llyfrgell a'r siop un alwad ar ryw adeg pan fyddai cylid yn caniatáu ac adeiladu arno ar gyfer y dyfodol.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd i bwyntiau a godwyd. Dywedodd ei fod yn credu bod y Cabinet wedi gwneud y penderfyniad a'i fod yn gwbl ymwybodol o'r holl bwyntiau a nodwyd yn y cais i alw'r penderfyniad i mewn i'w graffu. Nid oedd y penderfyniad yn un hawdd i'w wneud. Gan ymateb i'r ffaith bod y llyfrgelloedd yn darged meddal ar gyfer toriadau, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Amgylchedd y byddai holl wasanaethau'r Cyngor yn wynebu toriadau, nid gwasanaethau llyfrgell yn unig. Byddai rhai gwasanaethau yn wynebu toriadau sylweddol i'w cylidebau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gosod cylideb gytbwys, yr oedd yn ofynnol iddo ei wneud yn ôl y gyfraith.

Dyweddodd y Pennaeth Tai a Chymunedau fod penderfyniad y Cabinet i leihau cylideb graidd ei gwasanaeth yn fan cychwyn iddi hi a staff y gwasanaeth i ddatblygu cynllun i lliniaru risgiau yn ymwneud â'r gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer darparu gwasanaethau a phreswylwyr/defnyddwyr gwasanaeth.

Egluodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) nad oedd y niferoedd o ran diswyddiadau yn hysbys eto, gan y byddai angen i bob unigolyn wneud eu penderfyniadau eu hunain ar sail eu hamgylchiadau unigol. Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda nhw oherwydd cymhlethdodau gyda blynnyddoedd o wasanaeth, ac o'r herwydd, ni ellid cynhyrchu ffigwr pendant. Fodd bynnag, o fewn yr adroddiad, nodwyd uchafswm y gost, a hysbyswyd yr aelodau hefyd mai cost unwaith ac am byth fyddai costau diswyddo, ac y byddai'r arbedion yn cael eu gwneud bob blwyddyn yn dilyn.

Ceisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes egluro i'r aelodau nad oedd adleoli o fewn y Cyngor yn lle diswyddo yn symud y baich ariannol i rywle

arall, a byddai'r staff a allai fod yn wynebu diswyddiad yn cael eu hadleoli i swyddi gwag a oedd eisoes yn bodoli ac wedi eu cyfrif o fewn cyllidebau'r gwasanaethau hynny.

Holodd yr aelodau a geisiwyd ffynonellau cyllid eraill, megis cronfeydd ffermydd gwynt cymunedol i helpu i gefnogi'r llyfrgelloedd. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau drwy ddweud wrth yr aelodau nad oedd y Cyngor yn gymwys i wneud cais am grantiau o'r cronfeydd hyn.

Gan ymateb i bryderon pellach mewn perthynas â diswyddiadau, adleoli ac ymddeoliad, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes mai prosesau gwirfoddol oedd y rhain i weld a oedd pobl am adael. Byddai'r rhai oedd wedi mynegi diddordeb mewn gadael yn wirfoddol wedyn yn cael eu hasesu i weld a oedd yn ymarferol i wasanaethau ganiatáu iddynt adael. O ran adleoli, rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai sgyrsiau'n cael eu cynnal gyda'r staff i sicrhau eu bod eisiau cael eu hadleoli a bod y rôl yn gweddu iddynt.

Yn ystod y drafodaeth cododd aelodau'r Pwyllgor bryderon yngylch yr effaith bosibl y byddai'r gostyngiad yn yr oriau agor yn ei chael ar argaeedd a hygyrchedd gwasanaethau llyfrgell a siopau un alwad i drigolion, yn enwedig y dinasyddion mwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn y sir. Roedd llyfrgelloedd hefyd yn cael eu defnyddio fel mannau cynnes i'r rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw, y rhai sy'n profi arwahanwydd cymdeithasol, yn ogystal ag unigolion sy'n byw â phroblemau iechyd hirdymor a'u gofalwyr. Byddai'r gostyngiad yn oriau agor cyfleusterau llyfrgell yn effeithio ar ddefnydd plant a phobl ifanc ar gyfer astudio neu waith ymchwil ac ar argaeedd y cyfleusterau fel hafanau diogel i ffwrdd o sefyllfaoedd personol neu deuluol anhrelnus. Byddai'r toriadau'n effeithio'n fawr ar allu grwpiau cymunedol/sefydliadau gwirfoddol i gynnal digwyddiadau llesiant/grwpiau cymorth neu i sefydliadau busnes ddarparu gwasanaethau cyngori gwerthfawr i drigolion. Byddai effaith andwyol hefyd ar y Gymraeg gan fod llyfrgelloedd yn cael eu defnyddio i bobl ddysgu'r iaith ac ymarfer eu sgiliau ieithyddol.

Dyweddodd Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth wrth y Pwyllgor y gallai'r llyfrgelloedd gael eu defnyddio o hyd gan grwpiau cymunedol allanol/sefydliadau gwirfoddol hyd yn oed pan fyddai'r llyfrgelloedd ar gau.

Mewn ymateb i ymholaadau gan y Pwyllgor yngylch ymgynghori ac a ymgynghorwyd â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y bu deialog gyda'r cynghorau. Fodd bynnag, nid oedd y Cynghorau hynny nad oeddent ar hyn o bryd yn cyfrannu at lyfrgelloedd wedi cael eu holi a oeddent yn dymuno cyfrannu yn y dyfodol. Oherwydd y sefyllfa ariannol na welwyd mo'i thebyg o'r blaen ac unwaith y bydd graddau llawn yr holl ostyngiadau mewn gwasanaethau yn hysbys, efallai y bydd cynghorau dinas, tref a chymuned yn penderfynu y byddai'n well ganddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaethau eraill yn hytrach na llyfrgelloedd yn y dyfodol.

Trafododd yr Aelodau eu pryderon mewn perthynas â phenderfyniad y Cabinet gan fod rhai'n teimlo bod yr ymarfer wedi'i gynnal ar ei ben ei hun, gan nad oedd pob llwybr wedi'i archwilio. Gan fod angen gwneud y penderfyniad mewn cyfnod mor

fach o amser nid oedd yn ymarferol i bob llwybr i alluogi'r llyfrgelloedd i aros fel ag yr oeddent fod wedi cael ei archwilio'n drylwyr. Teimlwyd hefyd nad oedd yr arbedion arfaethedig o'r llyfrgelloedd yn anghymesur o gymharu â maint y Gwasanaeth.

Wrth ymateb, eglurodd swyddogion nad oedd y toriadau i'r Gwasanaeth Llyfrgell a Siop Un Alwad wedi cael eu trin ar eu pen eu hunain. Fel y dywedwyd eisoes, roedd y toriad hwn yn rhan o gyfres o doriadau i lawer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Roedd gofyn i bob Pennaeth Gwasanaeth ddod o hyd i doriadau i'w cyllidebau. Roedd maint yr arbedion fesul gwasanaeth, gyda rhai yn llai nag eraill, yn amherthnasol gan eu bod i gyd yn cyfrannu at y Cyngor yn gosod cyllideb gytbwys.

Caniataodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Undeb o Unsain rannu llythyr a siarad ar ran aelodau'r Undeb. Roedd y llythyr yn nodi:

"Mae UNSAIN yn credu y dylai'r toriadau yma gael eu gwrtod. Credwn hefyd fod lle sylweddol i ymchwilio i ffynonellau ariannu amgen ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd o ddau faes yn benodol:

- Yn gyntaf, mae trefniadau yn Llanelwy a Rhuddlan yn dangos y posibilrwydd o weithio allan trefniadau ar y cyd gyda Chyngorau Dinas, Tref a Chymuned. Dylid archwilio hyn yn weithredol mewn rhannau eraill o'r sir.
- Yn ail, credwn fod lle sylweddol i ddenu cyllid grant i gefnogi seilwaith y llyfrgelloedd fel canolbwytiau cymunedol. Gallai amrywiaeth o fentrau y mae staff y llyfrgell yn eu cyflwyno drwy gydol y flwyddyn o bosibl ddenu cyllid grant ar sail prosiect. Yn fwy arwyddocaol, mae'r cynghorau eisoes yn dod â miliynau o bunnoedd bob blwyddyn mewn arian grant i ddarparu gwasanaethau cymunedol a chymdeithasol. Mae engraifft Sir Ddinbych yn Gweithio wedi dangos, trwy fanteisio ar y llyfrgelloedd fel canolbwytiau cymunedol, ei bod yn bosibl darparu gwasanaethau eraill a ariennir gan grantiau trwy seilwaith y llyfrgell a defnyddio'r arian grant i gyfrannu at gostau rhedeg y llyfrgelloedd. Mae angen i lawer mwy o wasanaethau ystyried y math hwn o drefniant a dylid cyfuno adolygiad o wasanaethau a ariennir gan grantiau â'n hadolygiad eiddo i archwilio'r cwestiwn hwn.

Gohiriwyd y Pwyllgor am egwyl o 10 munud am 12.15pm ac ailymgynnll am 12.25pm.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i grynhau eu safbwytiau. Pwysleisiodd y Cyngorydd Brian Jones, ar ran y rhai a lofnododd y cais i alw'r penderfyniad i mewn, nad oedd unrhyw awydd ymhli y mwyafri o'r aelodau etholedig na'r trigolion i wasanaethau llyfrgell ac oriau gael eu lleihau. Cynigiodd y dylid cyfeirio'r penderfyniad i leihau oriau agor y Llyfrgell/Siop Un Alwad ac arbedion cysylltiedig yn ôl i'r Cabinet i'w hailystyried, gydag argymhelliaid bod y cynnig yn cael ei ddileu o broses pennu cyllideb 2024/25 er mwyn hwyluso gwerthusiad opsiynau yn mewn perthynas ag argaeledd cyfleoedd ariannu preifat neu allanol i ariannu'r diffyg yng nghyllideb y Gwasanaeth.

Wrth grynhau, ailadroddodd Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth y ffaith, er nad oedd y penderfyniad yn eistedd yn gyfforddus ag ef, bod y Cabinet,

oherwydd y sefyllfa ariannol enbyd sy'n wynebu awdurdodau cyhoeddus hyd y gellir rhagweld, yn gorfol gwneud rhai penderfyniadau annymunol. Wrth wneud y penderfyniad i leihau oriau agor ar draws y Gwasanaeth Llyfrgell/Siop Un Alwad yn hytrach na chau llyfrgelloedd unigol, roedd y Cabinet yn prynu amser i'r awdurdod a'r gwasanaeth i ddatblygu syniadau arloesol newydd mewn ymgais i gynnal a gobeithio ailadeiladu'r ddarpariaeth gwasanaeth wrth fynd ymlaen. Plediodd ar yr aelodau i beidio â defnyddio Craffu fel arf gwleidyddol i guro'r Pwyllgor Gwaith, ond i weithio'n adeiladol gyda'r Cabinet i sicrhau hyfywedd llyfrgelloedd a gwasanaethau awdurdod lleol gwerthfawr eraill yn y dyfodol.

Eiliwyd argymhelliaid y Cynghorydd Brian Jones gan y Cynghorydd James Elson.

Cynigiodd y Cynghorydd Merfyn Parry welliant i argymhelliaid y Cynghorydd Brian Jones. Cynigiodd y Cynghorydd Parry y dylid gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad mewn perthynas â lleihau oriau agor y Gwasanaeth Llyfrgell/Siop Un Alwad ac arbedion cysylltiedig, ac argymhellodd fod gwaith archwiliol yn cael ei wneud gyda chyngchorau dinas, tref a chymuned, grwpiau allanol, ac asiantaethau gyda bwriad i sicrhau cyllid allanol i helpu i gynnal y gwasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd/siopau un alwad. Dylid gohirio penderfyniad y Cabinet hyd nes y cwblheir y gwaith hwn a bod canlyniadau arfarniad opsiynau ar hyfywedd ffrydianu ariannu yn y dyfodol yn hysbys. Eiliwyd argymhelliaid diwygiedig y Cynghorydd Parry gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

Cyn cymryd pleidlais ar y gwelliant gofynnodd yr aelodau am egwyl fer i'w galluogi i drafod yr argymhelliaid a'r argymhelliaid diwygiedig. Pan ailalwyd y cyfarfod, eglurodd y Cynghorydd Merfyn Parry mai geiriad terfynol ei argymhelliaid oedd y dylai'r Pwyllgor:

- (i) gyfeirio'r penderfyniad ar y 'Cynnig Arbedion Llyfrgell/Siop Un Alwad' a gymerwyd gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023 yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach;
- (ii) argymhell i'r Cabinet ei fod yn gohirio gweithredu'r penderfyniad uchod hyd nes y bydd gwaith archwilio pellach yn cael ei wneud i ganfod ffynonellau ariannu amgen sydd ar gael i'r Cyngor neu gyrrff partner eraill, boed yn y sector preifat neu gyhoeddus.

Yn dilyn yr eglurhad hwn tynnodd y Cynghorydd Brian Jones ei argymhelliaid gwreiddiol yn ôl ac eiliodd argymhelliaid diwygiedig y Cynghorydd Parry. Wrth dynnu ei argymhelliaid yn ôl gofynnodd y Cynghorydd Jones am bleidlais wedi'i chofnodi ar yr argymhelliaid ac eiliwyd ei gais gan y Cynghorydd Parry. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro er mwyn i bleidlais wedi'i chofnodi gael ei chynnal, bod angen i un rhan o chwech o aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol bleidleisio o blaid pleidleisio ar yr argymhelliaid drwy bleidlais wedi'i chofnodi.

**Penderfynodd** y Pwyllgor o fwyafrif:

***bod pleidlais wedi'i chofnodi yn cael ei chymryd ar yr argymhelliaid mewn perthynas â chyfeirio'r penderfyniad ar Lyfrgelloedd/Siop Un Alwad a gymerwyd gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023 yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach.***

Yna pleidleisiodd y Pwyllgor ar yr argymhelliaid a gyflwynwyd a thrwy fwyafrif:

**Penderfynwyd: ar ôl ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau, y seiliau a osodwyd dros alw'r penderfyniad i mewn i'w graffu, a'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, i**

- (i) *gyfeirio'r penderfyniad ar y 'Cynnig Arbedion Llyfrgell/Siop Un Alwad' a gymerwyd gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023 yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach; a*
- (ii) *argymhell i'r Cabinet ei fod yn gohirio gweithredu'r penderfyniad uchod hyd nes y bydd gwaith archwilio pellach yn cael ei wneud i ganfod ffynonellau ariannu amgen sydd ar gael i'r Cyngor neu gyrrff partner eraill, boed yn y sector preifat neu gyhoeddus.*

Pleidleisiodd aelodau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

**O blaid yr argymhelliaid:**

Y Cyngorwyr Michelle Blakeley-Walker, Karen Edwards, James Elson, Carol Holliday, Brian Jones, Merfyn Parry, Arwel Roberts a Cheryl Williams

**Yn erbyn yr argymhelliaid:**

Y Cyngorwyr Jon Harland ac Alan James

**Ymatal rhag pleidleisio:**

Y Cyngorydd Huw Williams (Cadeirydd)

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm<TRAILER\_SECTION>  
</TRAILER\_SECTION>

<LAYOUT\_SECTION>

1. **FIELD\_TITLE**

FIELD\_SUMMARY

</LAYOUT\_SECTION>

<TITLE\_ONLY\_LAYOUT\_SECTION>

2. **FIELD\_TITLE**

</TITLE\_ONLY\_LAYOUT\_SECTION>

<HEADING\_LAYOUT\_SECTION>

**FIELD\_TITLE**

</HEADING\_LAYOUT\_SECTION>

<TITLED\_COMMENT\_LAYOUT\_SECTION>

**FIELD\_TITLE**

FIELD\_SUMMARY

```
</ TITLED_COMMENT_LAYOUT_SECTION>
<COMMENT_LAYOUT_SECTION>
FIELD_SUMMARY
</ COMMENT_LAYOUT_SECTION>

2.1 <SUBNUMBER_LAYOUT_SECTION>
      FIELD_TITLE
      FIELD_SUMMARY
    </SUBNUMBER_LAYOUT_SECTION>

2.2 <TITLE_ONLY_SUBNUMBER_LAYOUT_SECTION>
      FIELD_TITLE
    </TITLE_ONLY_SUBNUMBER_LAYOUT_SECTION>
```

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambraeth y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 1 Chwefror 2024 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Karen Edwards (Is-Gadeirydd), Pauline Edwards, James Elson, Jon Harland, Carol Holliday, Alan James, Brian Jones a/ac Cheryl Williams

Yr Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth (y Cyngorydd Barry Mellor) ar gyfer eitem 5 ar yr agenda a'r Aelod Arweiniol dros Dai a Chymunedau (y Cyngorydd Rhys Thomas) ar gyfer eitem 6 a 7 ar yr agenda.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (TW), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ); Rheolwr Parcio a Diogelwch Ffyrrd (MJ), Pennaeth Tai a Chymunedau (LG), Pennaeth Tai a Chymunedau (GD), Rheolwr Cymdogaeth (NE), Cydlynydd Craffu (KE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (NH, RhTJ).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Michelle Blakeley-Walker a Huw Williams (Cadeirydd) - yr Is-gadeirydd. Yn absenoldeb y Cadeirydd Llywyddwyd y cyfarfod gan y Cyngorydd Karen Edwards

### 2 DATGAN CYSYLTIAD

Myneiddiod y Cyngorydd Cheryl Williams gysylltiad personol yn eitem 6 a 7 ar y rhaglen fel Tenant i Gyngor Sir Ddinbych.

### 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr.

#### Materion yn codi

Dywedodd y Cydlynydd Craffu fod yr ymholaed ynghylch yr angen am ffynonellau gwres eilaidd mewn llety gyda Phymciau Gwres yr Awyr wedi'i godi gyda'r Adran Rheoli Adeiladu ac nad oedd yn ofynnol.

Mewn ardaloedd o'r sir oddi ar y grid ar gyfer cyflenwad nwy lle'r oedd Pympiau Gwres yr Awyr wedi'u gosod, roedd rhai tenantiaid wedi dewis cadw eu llosgwyd coed neu Stofau Charnwood i'w defnyddio wrth gefn.

Roedd y Gwasanaeth yn gweithio ar Bolisi Gwresogi y gellid ei gyflwyno i'r Pwyllgor am adborth cyn ei weithredu yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD: derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhalwyd ar 7 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.***

**5 CYNLLUN BUDDSODDI MEWN MEYSYDD PARCIO DRAFFT 2024 – 2029**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, ynghyd â'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrd yr adroddiad Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio Drafft (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Nod yr adroddiad oedd darparu manylion Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio drafft y Cyngor ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 i Fawrth 2029 i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i archwilio cynnwys y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio drafft, gan gynnwys y rhaglen a awgrymwyd a gwneud sylwadau yn unol â hynny.

Dyweddodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant wrth y pwyllgor fod cynnig o fewn y cynllun i'r prisiau parcio gynyddu am y tro cyntaf ers 2016. Y prif reswm dros y cynnydd arfaethedig oedd adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol mewn costau cynnal a chadw.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod penderfyniadau ynghylch codi prisiau parcio yn benderfyniadau dirprwyedig a wnaed gan yr Aelod Arweiniol. Fodd bynnag, oherwydd yr effaith bosibl ar drigolion roedd y mater wedi'i drafod gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet a chraffu cyn ei weithredu.

Wrth gloi dywedodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant y byddai diweddarus system talu ac arddangos y meysydd parcio yn costio tua £13-14,000 i'r awdurdod.

Arweiniodd y swyddogion y Pwyllgor drwy'r adroddiad a'r atodiadau gan amlygu meysydd allweddol. Dangoswyd y cynllun 5 mlynedd gwreiddiol i'r aelodau, a gynhyrchwyd yn 2018 ynghyd ag atodiadau B ac C yn cymharu gwaith a gynlluniwyd yn erbyn gwaith a gwblhawyd. Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Ffyrd wrth yr aelodau fod holl beiriannau talu ac arddangos yr Awdurdod wedi'u diweddarus ers cyflwyno'r cynllun er mwyn caniatáu amryfal ddulliau o dalu, gan gynnwys talu digidol.

Dyweddodd y swyddogion fod y cynllun wedi bod gerbron y Grŵp Craffu Cyfalaf i'w drafod ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn am y penderfyniad terfynol cyn ei weithredu.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd Swyddogion -

- Gosodwyd pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn naw maes parcio ledled y Sir – gan gynnwys pwyntiau gwefru cyflym yn y canolbwyt yn y Rhyl a maes parcio Rhodfa'r Brenin ym Mhrestatyn.
- Roedd cynyddu'r lleoedd gwefru cerbydau trydan ym meysydd parcio'r Cyngor yn ddyhead gan y tîm. Ni chasglwyd data i weld a oedd angen mwy o bwyntiau. Byddai pris trydan yn y pwyntiau hyn yn gystadleuol.
- Roedd gwaith cynllunio diddosi arwyneb y maes parcio aml-lawr yn Ninbych wedi'i ohirio er mwyn gwneud gwaith atgyweirio strwythurol ac adferol arall. Ni ragwelwyd y byddai effaith sylweddol ar ddeiliaid trwydded pe bai'r deciau isaf yn cael eu cau tra bod gwaith yn cael ei wneud. Gellid alinio agoriad y deciau isaf gyda'r diwrnodau parcio am ddim a neilltuwyd gan y Cyngor Tref ar gyfer digwyddiadau arbennig trwy gydol y flwyddyn.
- Byddai angen ystyried achos busnes ar gyfer unrhyw waith sylweddol ar feysydd parcio yn y Grŵp Rheoli Asedau a'r Grŵp Craffu Cyfalaf ac ati.

Gofynnodd y Pwyllgor i adolygiad blynnyddol o Gynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio 2024 - 2029 gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

#### **PENDERFYNWYD –**

- I. ***Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les a***
- II. ***Bod cynnwys yr adroddiad ar y Cynllun Buddsoddi mewn Maes Parcio 2024 - 2029 yn cael ei nodi.***

## **6 RHEOLI TENANTIAETH TAI CYMUNEDOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yr Adroddiad Rheoli Tenantiaeth Tai Cymunedol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ochr yn ochr â'r Pennaeth Tai a Chymunedau, y Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol, a'r Rheolwr Cymdogaeth.

Cyn i'r swyddogion roi manylion yr adroddiad, rhoddodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau gyflwyniad byr i'r pwyllgor. Nododd fod yr adroddiad hwn a'r adroddiad Adborth Tenantiaid canlynol yn adlewyrchu'r ddwy ochr, y landlordiaid a'r tenantiaid. Un o ochr rheoli tai Sir Ddinbych o dai cymdeithasol, a'r nesaf (eitem 7) yn canolbwytio ar farn y tenantiaid ynghylch gweithredoedd y Gwasanaeth Tai.

Diolchodd y Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol i'r aelod arweiniol am y cyflwyniad. Atgoffodd yr aelodau mewn cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor craffu, lle'r oeddent wedi trafod y Strategaeth Dai a'r Cynllun Gweithredu Digartrefedd, y gofynnwyd a oedd yr awdurdod yn gorfodi amodau tenantiaeth yn ddigon cadarn.

Wrth gyflwyno'r Rheolwr Cymdogaeth eglurwyd bod y gwasanaeth wedi symud i ffwrdd o rolau Tai arbenigol a fyddai'n delio'h unig gyda materion Rheoli Incwm neu Gymdogaeth, i greu swyddogion cyffredinol sy'n gallu darparu gwasanaeth mwy cyfannol i denantiaid sydd yn cynyddu effeithlonrwydd i reoli llwyth gwaith.

Roedd gwybodaeth am sut y rheolwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu unrhyw ymddygiad a oedd yn effeithio ar gymdogion, wedi'i darparu, a oedd yn cynnwys

camau gweithredu ffurfiol ac anffurfiol. Bu'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenciad a gwasanaeth dibyniaeth gymunedol yn ogystal â Heddlu Gogledd Cymru i gefnogi a chyfryngu gyda thenantiaid.

Roedd yr adroddiad yn darparu ystadegau ac astudiaethau achos ar faterion a gododd yn eithaf aml a oedd yn gofyn am ymateb ar unwaith gan y tîm tai.

Gan ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd Swyddogion:

- O ran y Cynllun Cefnogwr Digidol, roedd y tîm cydnerthedd cymunedol yn parhau i weithio i sicrhau nad oedd tenantiaid yn cael eu hallgáu'n ddigidol rhag cyfathrebu â'r gwasanaeth.
- Roedd Contract Ymddygiad Derbyniol (ABC) yn ddull gweddol safonol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Lle mae'r ymddygiad yn ymwneud â materion tenantiaeth yn unig (e.e. gerddi) anogwyd tenantiaid i gymryd rhan yn y cytundeb gwirfoddol gyda'r gwasanaeth er mwyn newid yr ymddygiad hwnnw cyn troi at gamau gorfodi.  
O bryd i'w gilydd, lle'r oedd gweithgarwch troseddol wedi digwydd byddai'r ABC yn cael ei gymryd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru.
- Roedd ABCs yn fwyaf effeithiol pan weithiodd y partïon dan sylw gyda'i gilydd i lunio'r contract. Adolygyd ABCs ar ôl 6 i 12 mis i gael mynediad at y newid ymddygiad ac roeddent yn llwyddiannus ar y cyfan. Pe na bai materion yn cael eu datrys, ystyriwyd ffyrdd eraill o weithredu megis gwaharddeb sifil gwrthgymdeithasol - roedd achosion o'r fath yn brin.

Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am yr adroddiad llawn a thrylwyr.

***PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn nodi cynnwys yr adroddiad Rheoli Tenantiaeth Tai Cymunedol.***

## 7 AROLWG ADBORTH A BODLONRWYDD TENANTIAID TAI CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau adroddiad Adborth ac Arolwg Boddhad Tenantiaid Tai Cyngor (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ochr yn ochr â'r Pennaeth Tai a Chymunedau, y Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol, a'r Rheolwr Cymogaeth.

Atgoffodd y Pennaeth Tai a Chymunedau y Pwyllgor fod yr adroddiad yn amlinellu Arolwg Safonol Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR) 2024, lle'r oedd tenantiaid yn rhoi adborth ar eu cartrefi, eu cymunedau a'r gwasanaeth a ddarperir gan Sir Ddinbych. Yna cafodd y wybodaeth honno ei meinchnodi yn erbyn sefydliadau eraill ledled Cymru. Er ei bod yn braf cael bod ar frig y tablau hynny, roedd y ffocws ar allu darparu cartrefi diogel a chyfforddus a chefnogi tenantiaid i ffynnu yn y cymunedau yr oeddent yn byw ynddynt.

Tywysodd y Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol y pwyllgor drwy gyflwyniad yn amlygu meysydd allweddol o fewn yr adroddiad a'r arolwg. Dywedodd ei fod:

- Yn rolwg safonol ledled Cymru ar gyfer awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

- Fel arfer yn cael ei wneud bob 2 flynedd
- Yn mesur boddhad tenantiaid
- Yn nodi tueddiadau, blaenoriaethau a meysydd i'w gwella
- Yn cael ei ddefnyddio i lunio cynlluniau gweithredu.

Ym mis Rhagfyr 2023, cafodd arolwg STAR ei anfon i bob tŷ cyngor yn Sir Ddinbych. O'r 3,277 arolwg a anfonwyd, derbyniwyd ymatebion gan 893 o aelwydydd sy'n gyfradd ymateb o 28%.

Yn flaenorol, roedd yr ymatebion gan y genhedlaeth hŷn yn bennaf ond roedd cynnwys sianeli digidol wedi casglu adborth gan bobl iau a theuluoedd.

Dangosodd y prif ddeilliannau fod boddhad yn yr ystod 80% uchaf. Nododd y dadansoddiad o sylwadau'r meysydd i'w gwella yr oedd y tenantiaid wedi'u hamlygu fel a ganlyn:-

- Gwella ansawdd yr eiddo (54%)
- Gwneud gwaith atgyweirio yn gynt (14%)
- Cwblhau gwaith atgyweirio sy'n weddill (10%)
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd (10%)
- Gwrando mwy ar denantiaid (9%)
- Gwella cyfathrebu (7%)

Wrth ymateb i ymholiadau aelodau ynghylch canran yr adborth mewn rhai ardaloedd, dywedodd swyddogion ei fod yn dda ar y cyfan, gan nodi bod pobl yn gyffredinol mewn arolygon yn codi materion yn hytrach na rhoi canmoliaeth. Lle'r oedd ardaloedd gydag ymateb is byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i ymgysylltu ymhellach ar gyfer arolygon yn y dyfodol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod yna Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych yr oedd y gwasanaeth yn anelu at gysylltu â nhw i wella cyfathrebu ac ymgysylltu wrth symud ymlaen.

Dywedodd y swyddogion:

- Anogwyd pob tenant i lenwi'r arolygon STAR a derbyniwyd unrhyw adborth yn ddiolchgar.
- Roedd yr ymatebion i'r arolwg y barnwyd eu bod wedi'u 'hepgor' gan denantiaid nad oeddent wedi ymateb i gwestiwn penodol.

Canmolodd y Pwyllgor y gwasanaeth ar lefel y gwaith adnewyddu a wnaed ar eiddo cyn iddynt gael eu hailosod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd, er y nodwyd bod y cyfraddau ymateb yn anghyson, bod yr arolwg wedi derbyn 893 o ymatebion, a bod 28% yn drawiadol. Roedd y gyfradd ymateb yn llawer uwch. Bod 890 wedi'u cyflwyno ar-lein a'r grŵp oedran â'r nifer fwyaf o ymatebion oedd y grŵp oedran 65+, yn awgrymu bod cynhwysiant digidol ymhlið tenantiaid tai cyngor yn gwella.

**PENDERFYNWYD bod y pwylgor yn nodi cynnwys yr arolwg Adborth a Boddhad Tenantiaid Tai Cyngor.**

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Arweiniodd y Cydlynydd Craffu yr Aelodau trwy adroddiad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Cymunedau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Ers y cyfarfod diwethaf cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Craffu Cymunedau Arbennig ar 11 Ionawr a oedd yn trafod penderfyniad y cabinet yn ymwneud â chynnig arbedion Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad, byddai cofnodion y cyfarfod hwnnw ar gael yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y Mawrth 14eg.

Roedd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi'i drefnu ar gyfer 14 Mawrth 2024, a'r eitemau arfaethedig ar gyfer y cyfarfod hwnnw oedd -

- Rhaglen Adfywio a Llywodraethu Y Rhyl
- Gweithredu Cyfleusterau Cyhoeddus CSDd yn y dyfodol. Ychwanegwyd yr eitem gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar ôl cyhoeddi'r pecyn rhaglen.

Anogodd y Cydlynydd Craffu Aelodau i nodi unrhyw gwestiynau neu faterion ar y Ffurflen Cynigion Aelodau (Atodiad 2) i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 18 Mawrth 2024.

**PENDERFYNWYD: ymhellach i'r uchod, cytuno ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Cymunedau.**

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Gofynnodd y Cyngorydd Alan James a oedd unrhyw gofnodion o'r cyfarfod Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd yr oedd wedi'i fynychu ar gael i'r aelodau, byddai'r Cydlynydd Craffu yn cysylltu â swyddogion i weld a oedd rhai ar gael.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am**



<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Craffu Cymunedau
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	14 Mawrth 2024
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi
<b>Pennaeth Gwasanaeth</b>	Paul Jackson: Pennaeth Priffyrrd a Gwasanaethau Amgylcheddol
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Paul Jackson / Tony Ward
<b>Teitl</b>	Cynnig Arbedion Cyfleusterau Cyhoeddus

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chynnig i ddileu cyllideb CSDd ar gyfer Cyfleusterau Cyhoeddus er mwyn creu arbediad refeniw.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- Mae Cyfleusterau Cyhoeddus ar restr Cynigion Arbedion Sylweddol sydd wedi ei dosbarthu i'r Aelodau a'i thrafod mewn amryw Weithdai Cyllideb.
- Nodi posiblirwydd am arbediad o'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer Cyfleusterau Cyhoeddus ac amlygu effaith bosibl gweithredu'r cynnig hwnnw am arbediad.
- Galluogi'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaeth graffu mewn perthynas â'r cynnig hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi cynnwys yr adroddiad, a chodi unrhyw faterion y gellir eu cynnwys yn natblygiad y cynnig cyn unrhyw benderfyniad yn y dyfodol gan y Cabinet.

- 3.2. Bod y Pwyllgor Craffu'n darllen y papur hwn ar y cyd â'r Asesiad o Effaith ar Les sydd yn Atodiad 1.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae'r Cyngor yn wynebu her ariannol ddigynsail, ac, felly, mae gofyn i bob gwasanaeth gyflawni arbedion sylweddol er mwyn bodloni'r her honno.
- 4.2. Mae'r cynnig i adolygu gwasanaeth Cyfleusterau Cyhoeddus wedi dod o'r broses gorfforaethol o nodi cynigion arbedion, a oedd yn rhan o broses gosod y gyllideb ar gyfer 2024/25. Dyma un o'r cynigion arbedion sylweddol a rannwyd gyda'r Aelodau ac a drafodwyd mewn amryw Weithdai Cyllideb. Yr oedd hefyd yn destun Gweithdy i Aelodau drwy Teams ar 24 Ionawr 2024.
- 4.3. Mae darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus yn ddyletswydd anstatudol. Mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth hwn flynyddoedd lawer yn ôl. Mae rhai awdurdodau cyfagos yn dal i ddarparu'r gwasanaeth hwn mewn ardaloedd penodol, ond wedi lleihau'r ddarpariaeth yn y blynnyddoedd diwethaf a / neu'n bwriadu ei lleihau ar hyn o bryd.
- 4.4. Mae gennym ar hyn o bryd 20 o safleoedd Cyfleusterau Cyhoeddus ledled y sir. Gellir defnyddio rhai ohonynt yn rhad ac am ddim, ac mae gan eraill gyfleuster ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr. Nid yw unrhyw un o'r safleoedd yn adennill eu costau. Mae rhestr lawn o leoliadau a data ariannol ar gael yn Atodiad 2 ac Atodiad 3.
- 4.5. Y cynnig yw dileu'r gyllideb sydd ynghlwm â gwasanaeth Cyfleusterau Cyhoeddus. Mae'r gyllideb oddeutu £270,000. Canlyniad hyn fyddai na fydd CSDd yn berchen ar Gyfleusterau Cyhoeddus nac yn gweithredu rhai mwyach. Fodd bynnag, gan ein bod yn gwybod bod darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus yn ein cymunedau'n bwysig, byddwn yn ceisio trosglwyddo cynifer o Gyfleusterau Cyhoeddus â phosibl i grwpiau neu sefydliadau eraill (e.e. Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned) fel eu bod yn parhau i fod yn weithredol, ond heb gost i CSDd. Ar hyn o bryd yr ydym yn y broses o drosglwyddo'r Cyfleusterau Cyhoeddus yng Nghorwen i Gyngor Tref Corwen, ac mae hyn yn darparu model ar gyfer yr hyn yr hoffem ei weld yn digwydd mewn lleoedd eraill. Yn ôl y cynnig hwn, rhagdybir y byddai unrhyw Gyfleusterau Cyhoeddus yr ydym yn methu eu trosglwyddo i berchennog arall yn cau.

- 4.6. Ffordd arall o liniaru effaith y cynnig hwn yw cefnogi busnesau lleol drwy ehangu Cynllun Grant Toiledau Cymunedol. Yn ôl y cynllun hwn, gall CSDd dalu grant i fusnesau lleol (sy'n £500 y flwyddyn ar hyn o bryd) os ydynt yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio eu cyfleusterau toiled yn rhad ac am ddim. Byddai'r cynllun hwn yn cael ei adolygu, ei ailfrandio a'i hyrwyddo i fusnesau yn rhan o'r cynnig. Credir y byddai rhai busnesau'n barod i dderbyn y cynnig hwn oherwydd byddai'n cynyddu nifer y bobl sy'n mynd i'w busnesau, ac yn ôl pob tebyg byddai rhai pobl yn teimlo rheidrwydd i brynu rhywbeth ar yr un pryd.
